Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xliv. RHAGFYR, 1944. Rhif 12.

Y Nadolig yng Nghwrt Arthur.

[*Cyflwynir i'r darllenwyr ieuengaf.*—Golygydd].

Efallai fod rhai ohonoch sy'n darllen llawer am yr Undodiaid wedi clywed am Joseph Prestwich Rosling. Dyna'i enw yn llawn. Pregethwr gyda'r Undodiaid yn Stalybridge ydyw, ac y mae ganddo gynulleidfa fywiog iawn. Lle yn ymyl Manchester yw Stalybridge, a chefndir o ffatrioedd dinas fyglyd a thai annedd digon tlawd sydd i'r stori a ddywedodd Mr. Rosling wrthyf am un Nadolig yng Nghwrt Arthur. Ceisiaf innau ysgrifennu ei stori yma yn y gobaith y cewch fwynhad o'i darllen a rhywbeth i feddwl amdano.

Er ymddangos o'r enw yn dywysogaidd nid oedd dim i'ch hadgofio am lys brenhinol yng Nghwrt Arthur. Yn arwain i'r Cwrt yr oedd llidiart pren a rhodfa gul, ac ym mhen draw'r llwybr yr oedd sgwâr fechan. Ar dair ochr y sgwâr yr oedd tai annedd ; ar y bedwaredd ochr yr oedd gwal uchel, ac ynddi yr oedd tyllau a barrau arnynt. Gwal ffatri ydoedd, a thrwy'r tyllau hyn y cai'r gweithwyr oddifewn awyr iach. Trwy'r tyllau hyn hefyd y byddai plant Cwrt Arthur yn arfer edrych ar y gweithwyr yn tendio peiriannau'r ffatri. Ymhlith y gweithwyr yr oedd eu tadau a'u mamau.

Ond daeth tro gwael ar fyd. Darfu sŵn mynd yr olwynion yn y ffatri. Daeth gorchudd o rwd dros y peiriannau ; gwelid rhychau pryder yn ddyfnach ar wynebau deiliaid Cwrt Arthur. Pryderent am fod eu bywioliaeth wedi mynd. Dyna paham yr oedd tristwch am fod y Nadolig a oedd ar ddod mor wahanol i bob Nadolig gynt. Nid oedd obaith am yr amser llawen a'r difyrrwch arferol, ac yn un o'r naw tŷ yng Nghwrt Arthur ni fyddai "coeden Nadolig" y flwyddyn honno.

Y siarad am y "goeden Nadolig" a fu'n achos i dynnu'r plant at ei gilydd rai dyddiau cyn y Nadolig. Yr oedd pymtheg ohonynt a phob un ond Elsie nymber 3 o dan ddeuddeg oed. Yr oedd hi

newydd gyrraedd yr oedran hwnnw, ac ystyrrid hi fel "mam" i'r plant eraill. Tomi nymber 8 a Bessie nymber 5 oedd ei ffrindiau gorau. I ben Elsie y daeth y syniad newydd, ond Tomi a welodd y ffordd i weithredu'r peth. Ar waethaf popeth yr oedd "coeden Nadolig" i fod, a'r hen goeden wrth wal y ffatri oedd honno. Penderfynodd Tomi fynd at y dyn a oedd yn cadw siop baent yn y stryd nesaf a gofyn iddo am gatiau o hen bapur papuro. Yr oedd Elsie yn dysgu'n yr ysgol i wneud "cadwyni" a "lanterni" o bapur lliw, a gallai hi ddysgu'r ffordd i'r plant eraill.

Dyn rhagorol a llond ei galon o gydymdeimlad â chynllun y plant oedd y dyn a gadwai'r siop baent, a daeth Tomi adref â choflaid lawn o bapur o bob lliw. Gyda'r brwdfrydedd mwyaf dechreuasant ar y gwaith, a chyn bo hir yr oedd golwg ogoneddus o brydferth ar yr hen goeden. Dawnsiai'r plant yn eu llawenydd. Gobeithient na ddeuai'r glaw am ddeuddydd beth bynnag, a phlanniwyd pob math ar firi a difyrrwch ar gyfer dydd y Nadolig. Y goeden ydoedd canolfan eu rhialtwch.

Cysgai Tomi yn ymyl ffenestr ystafell fechan, ac ar ddihun yn ei wely crwydrai ei lygaid yn bryderus o'r awyr at y goeden. Gwelai'r sêr yn disgleirio'n filoedd o fflamau bychain ; gwelai'r "cadwyni a'r lanterni" yn siglo yn awel y nos. Ac yr oedd yn llawen—mor llawen nes llifo o ddagrau llawenydd dros ei wyneb, un deigryn yn ymlid y llall. Yna yn sydyn digwyddodd rhywbeth rhyfedd. Gwelodd Tomi rywbeth nas gwelodd erioed o'r blaen—gwelodd dwll bychan ym moncyff y goeden, a thrwy'r twll bychan hwnnw dyma ddyn yn dod allan. Gwelai Tomi ef mor blaen â'r dydd, dyn bychan mewn gwisg o wyrdd golau, ei wyneb mor serchog, a rhyw olau dieithr yn dawnsio yn nhrem ei ddau lygad. Gwelodd y dyn bach Tomi hefyd, a chyn y gallai wybod beth oedd yn digwydd, yr oedd Tomi yn eistedd yn ei ymyl dan y goeden ac yn gwrando'n astud ar ei stori.

Dywedodd y dyn bach mai ef oedd "Ysbryd y Coed," mewn geiriau eraill, ef oedd "Brenin y Fforestydd." Dywedodd falched oedd fod y plant yn anrhydeddu'r hen goeden, ac adroddodd wrth Tomi hanes diddorol bywyd y coed. Dywedodd am yr amseroedd 'slawer dydd pryd y meddyliai dynion fod y coed yn "dduwiau." Y pryd hynny addolid hwy, a chredai dynion eu bod yn anfarwol. Clywent y coed yn siarad y pryd hynny, weithiau mewn murmur tawel, ar brydiau eraill fel rhai yn llawn o ddicter. Gwelent y coed yn gadael i'r adar nythu a chanu yn eu canghennau, ac wedyn yn mynd mor ffyrnig fel na allent ddal dim yn eu breichiau. Ymddangosai gwreiddiau'r coed fel pe baent yn treiddio i lawr i ganol y ddaear a'i brigau fel pe'n cyffwrdd â'r ffurfafen. Credai dynion mai'r coed oedd yn peri i'r gwyntoedd chwythu ; credent mai gweision y coed oedd yr haul a'r glaw. Credent hefyd fod y coed yn rhoddi bywyd a gwybodaeth, ac awgrymai newid lliw'r

dail yn yr hydref iddynt fod y coed yn meddu ar gyfrinach goleuni. "Yr wyf yn dweud wrthych," meddai'r dyn bach wrth Tomi, "fod Teyrnas y Coed yn cyfrif rhywbeth yn eich byd yn yr amseroedd hynny." Ond heddiw ni feddylia dynion fwy am fy nheyrnas i na thynnu ohoni ddodrefn tai a choed tân ! Y mae ein hen ogoniant ni yn ngolwg dynion wedi diflannu. Dyma paham fy mod i mor falch fod plant Cwrt Arthur wedi anrhydeddu hen aelod mor ostyngedig o 'nheyrnas i. Yr oedd fy nghalon yn fy nghymell i ddweyd hynny wrthych." Yr oedd Tomi hefyd yn falch o glywed am y pethau hyn. Rhwbiodd ei lygaid, a dywedodd wrtho'i hun, "Rhaid i mi ddweud hyn wrth Elsie yn y bore."

Ac fe wnaeth. Ond synnodd Tomi pan glywodd Elsie yn dweud iddi hithau weld "Ysbryd y Coed." Adroddodd Elsie yr hanesyn rhyfedd a ddywedodd y dyn bach yn y wisg o wyrdd golau wrthi am y dyn nobl hwnnw a fu byw flynyddoedd maith yn ôl, y gorau o bawb a fu byw ar y ddaear. Fe'i cyffelybodd ei hun i goeden. Ceisiodd am y maeth gorau yn y ddaear, fel y gwna gwreiddiau'r goeden, a dyrchafodd ei freichiau (a'i olygon) i'r nefoedd, fel y dyrchefir canghennau'r goeden, gan ymhyfrydu yn y goleuni a'r gwres a'r gogoniant sydd oddiuchod. Oherwydd iddo fyw fel hyn yr oedd prydferthwch bywyd a goleuni ynddo ef, a gwres cyfeillgarwch hefyd. Yn amser y Nadolig pan fydd dynion, hen ac ifanc, yn cofio ar eu haelwydydd am y dyn da hwn, y mae gwres cyfeillgarwch yn eu hasio wrth eu gilydd, canys cloddiant ei ysbryd ef o ddwfn eu calonnau. Y mae ei fywyd ef fel y tân—a beth yw tân ond tes haul wedi ei storio yn y glo, hen foncyff coed a gladdwyd oesoedd hir. "Mi wn i," meddai Tomi, "pwy oedd y dyn da hwnnw." "Gwn innau hefyd," meddai Elsie. "Fel y dywedodd Ysbryd y Coed, rhaid bod Iesu yn debyg i goeden. Dyna pam, goeliaf i, yr anrhydeddwn ni'r goeden Nadolig."

"Mae'n dda gennyf," meddai Tomi, "fod gennym goeden y Nadolig hwn, a ninnau wedi ei gwneud. Onibai am hynny ni welsem ni Ysbryd y Coed na chlywed ei hanesion difyr."

Penderfynasant ill dau ddweud y pethau hyn wrth gynulliad y plant ogylch y goeden ar fore'r Nadolig. A gwnaethant hynny, a mwy—yn gwrando arnynt yr oedd llawer o dadau a mamau a chwiorydd a brodyr hynaf Cwrt Arthur. Nid amheuodd neb air a lefarodd Tomi ac Elsie. Ni allent. Canys cyn gynted ag y darfu'r adrodd, i'r tawelwch y llifodd nodau miwsig—rhyw lais peraidd yn canu yn rhywle :

" I think that I shall never see
A poem lovely as a tree :
A tree whose hungry mouth is prest
Against the earth's sweet-flowing breast ;
A tree that looks at God all day,
And lifts her leafy arms to pray ;

A tree that may in summer wear
A nest of robins in her hair ;
Upon whose bosom snow has lain,
Who intimately lives with rain."

Cofir yn hir am y dydd Nadolig hwnnw yng Nghwrt Arthur. Ar fywydau gwasgedig deiliaid y Cwrt rhoddodd yr hen goeden gnotog a dilun urddas newydd. Ac yn y naw tŷ rhoddwyd lle mwy anrhydeddus nag erioed i'r cardiau a gafodd y plant yn yr Ysgol Sul, canys yr oedd y geiriau arnynt yn neilltuol o gymwys. YNA Y DAW ALLAN WIALEN O GYFF IESE. MYFI YW Y WINWYDDEN.

Daliadau'r Undodiaid.

HWYRACH y gŵyr y darllenydd yn barod rywbeth am yr Eglwysi a'r mudiadau eraill a elwir yn gyffredin yn Undodaidd. Hwyrach eich bod yn aelod o'r gyfeillach honno, ac eto heb fod yn glir iawn eich meddwl am olygiadau'r gyfeillach. Efallai, ar y llaw arall, eich bod yn ddieithr i'r mudiad Undodaidd. Clywsoch ei enw, a dim llawer mwy na hynny, ac yr ydych wedi dyfalu beth mewn gwirionedd yw'r ddysgeidiaeth sy'n gwahaniaethu'r Eglwys Undodaidd oddiwrth eraill. Beth bynnag yw eich safbwynt, dyma i chwi amlinelliad syml o'r ddysgeidiaeth honno yn y gobaith y bydd o help i chwi ddeall drosoch eich hun ac, o bydd angen, egluro i eraill *beth a gred yr Undodiaid.*

CREFYDD RYDD. Mewn rhai eglwysi disgwylir i'r aelodau i gyd ddysgu a dweud gyda'i gilydd ffurf ar eiriau sy'n dechrau gyda "Credaf . . . ", ac a elwir yn "Gredo." Ni ofynnir hynny o gwbl mewn Eglwys Undodaidd, canys y pwynt cyntaf y dylid ei wneud yn eglur yw fod yr Undodiaid yn credu mewn Eglwys *rydd* ac mewn crefydd *rydd.* Ni chredant fod gan unrhyw un yr hawl i ddweud beth y mae'n rhaid i eraill gredu neu beidio a chredu. Gan bob bod dynol y mae'r gallu i feddwl ac amcan y gallu hwnnw yw meddwl, a thrwy hynny ddod â'r dyn ei hunan yn agosach at y gwirionedd.

Y mae'r Eglwysi Undodaidd yma heddiw oherwydd, yn y blynyddoedd gynt, bu dynion yn meddwl fel hyn drostynt eu hunain, a chawsant na allent ddweud bellach "Credaf . . . " gyda'r lleill, canys arweinid hwy gan eu meddyliau i gredu peth a oedd yn wahanol. Yn yr amseroedd hynny cospid dynion—hyd yn oed i farwolaeth—am feiddio meddwl drostynt eu hunain. Galwyd am wroldeb a ffyddlondeb mawr i sefydlu a chynnal yr Eglwysi rhydd na ofynnir ynddynt i neb gredu oni bydd ei farn ei hun yn dweud wrtho fod y peth yn wir.

Ond y mae aelodau Eglwys Undodaidd yn credu fod rhyw bethau yn wir, a glynant wrth ei gilydd fel cyd-aelodau am y credant ar y cyfan yn yr *un* daliadau.

A ddilyn yw crynhodeb byr o'r daliadau cyffredin hyn : mynegir hwy nid gyda'r bwriad fod rhaid i chwi neu rywun arall eu derbyn ond am y bydd yn dda i chwi wybod am ba bethau y saif yr Eglwys Undodaidd ac, os mynnwch, eu credu. Cafodd llaweroedd yn y ffydd Undodaidd gymorth a nerth er mwyn byw a marw. Bydd yn gymorth i chwithau hefyd os ceisiwch ei deall ac, yn fwy na phopeth, os ceisiwch ei byw. Ond na fydded i ddim eich rhwystro i geisio drosoch eich hunain wirionedd helaethach a llawnach.

Dyma amlinelliad cyffredinol o ddaliadau'r mwyafrif o Undodiaid.

DUW. Cred yr Undodiaid mewn Duw, a chredant fod Duw yn Un—yr Ysbryd mawr sy'n gwneud ac yn cynnal y byd a phopeth sydd ynddo, a'n bywydau ni ein hunain.

Y mae Duw yn berffaith mewn gallu, doethineb, cyfiawnder, a chariad.

Ni all yr un enw a ddefnyddir gan ddynion fynegi mwy na rhan o'r hyn ydyw Ef ; ond cred yr Undodiaid mai'r gorau o'r enwau hyn i gyd yw "Ein Tad"—yr enw a ddefnyddiodd ac a ddysgodd Iesu—canys dywed wrthym mai nid yn unig achos a ffynhonnell ein bywyd yn gyfan ydyw ond dywed wrthym ei fod Ef yn caru pob bod dynol ac yn gofalu amdano fel y mae tad yn caru ac yn gofalu am ei blentyn ; a gallwn ninnau ei garu ac ymddiried ynddo yntau fel y mae plentyn yn caru ac yn ymddiried yn ei dad.

Y BYD. Cred yr Undodiaid fod oedran y byd yn filiynau lawer o flynyddoedd ; darganfu'r gwyddonwyr hyn, a dont bob dydd o hyd i ryfeddodau newydd amdano.

Ni wyddys pa fodd y dechreuodd y byd ; ond cred yr Undodiaid iddo ddod oddiwrth Dduw, ac y llywodraethir popeth ynddo gan ei ddeddfau mawr Ef, deddfau y mae dynion yn dod i'w deall yn fwy ac yn fwy.

Y mae'r byd o hyd yn cyfnewid ac yn tyfu, ac y mae bywyd, y peth rhyfeddol arno, yn cymryd arno o hyd ffurfiau newyddion.

Cred yr Undodiaid fod cynllun Duw ar gyfer y byd yn gyfan yn berffaith ddoeth a da, a phan ymddengys pethau i ni yn hyll ac yn greulon ac yn ddrwg y mae hynny am na allwn ni weld a deall y cyfan.

Ni chred yr Undodiaid mai achos y peth a elwir yn ddrwg yw rhyw allu-bydol arall (a elwir gan rai wrth yr enw "Diafol"), canys credant mai dim ond un Gallu sydd, a hwnnw yw Duw.

DYN. Cred yr Undodiaid i ddynion ddechrau byw ar y ddaear lawer o filoedd o flynyddoedd yn ôl ; iddynt dyfu, yn ôl cynllun

Duw, o ffurfiau eraill o fywyd a oedd yn llai urddasol, a thyfu y maent o hyd mewn gallu a medr, daioni a phrydferthwch.

I fywyd dyn y mae gwahanol rannau a gyfunir mewn ffordd ddirgelaidd. Ffurfir ei gorff o'r un defnydd neu fater a'r rhelyw o'r ddaear ; fe'i gwnaethpwyd yn rhyfeddol iawn, a pho fwyaf y gwyddom am ei weithrediadau mwyaf ein parch tuag ato a'n clod i Dduw amdano.

Dirgelwch dyfnach byth yw hunan gwirioneddol dyn—y "fi" ym mhob un ohonom. Ni all yr un ohonom ei ddeall na'i esbonio ; ond cred yr Undodiaid mai o Dduw y mae.

Mewn rhan, y mae bywyd dyn yn debyg i eiddo'r anifeiliaid, yn ymwneud a bwyd a chysur y corff, yn barod i ymladd a brwydro yn erbyn creaduriaid eraill er mwyn y pethau sy'n werth eu cael. Ond yn ei fywyd hefyd y mae meddyliau a dymuniadau gwahanol ; gwel dyn y ddyledswydd i wneud daioni, i garu'r prydferth, a cheisio gwybod y gwir.

Cred yr Undodiaid fod Duw wedi creu dyn yn rhydd i ddewis ei ffordd o fyw. Ni chredant fod Diafol wedi temtio'r dynion cyntaf i wneud drwg, a thrwy hynny "gwympo" i bechod, a bod Duw oherwydd hynny wedi gorchymyn fod pob un ddaeth ar eu hôl o reidrwydd yn bechadur ac yn anhapus hyd nes eu "prynu" neu eu hadfer o afael yr un drwg, canys ni chred yr Undodwr fod y fath un drwg na bod Duw sy'n berffaith gyfiawn a chariadus wedi trefnu felly.

Yn hytrach, cred yr Undodiaid fod dyn yn "pechu" yn barhaus, hynny ydyw, yn dewis yn anghywir rhwng y ffordd waelach a'r ffordd well o fyw, ac yn ei adfer ei hun yn barhaus. Credant fod Duw'n ewyllysio i ddyn ennill yn raddol fuddugoliaeth berffaith ar ddymuniadau a nwydau drwg, a meithrin ei gorff i gynorthwyo'i feddwl a'i ysbryd ym mhob peth sydd ragorol. Credant y *gall* dyn fyw fel hyn, canys yn y strygl o blaid y da y mae'r Tad bob amser yn helpu ei blant.

EIN GWYBODAETH AM DDUW. Er na welodd neb Dduw erioed na gwybod amdano fel y mae gennym wybodaeth am bethau eraill, cred yr Undodiaid ei fod mewn llawer ffordd yn ei ddangos neu yn ei ddatguddio'i hun i'r sawl sy'n ceisio ei ddeall.

Yn y byd o amgylch, dengys ei allu, ei ddoethineb, a'i brydferthwch ; canys oddiwrtho Ef y daw'r byd, a rhan o wirionedd Duw yw pob gwirionedd a ddysgir amdano.

Yn hanes bywydau dynion, gwelwn ei law arweiniol, a'i ewyllys yw fod ei blant i gyd yn dysgu a thyfu, hyd yn oed trwy ddioddefaint, fod yn fwy rhagorol ac yn fwy doeth.

Yng ngharedigrwydd a chymorth y rhai sydd o'n deutu, amlygir cariad Duw ei hun, canys cred yr Undodiaid fod pob cariad dynol yn dod o Dduw, ac y mae pob bywyd dynol prydferth yn ddatguddiad newydd ohono.

Cred yr Undodiaid yr amlygir Duw yn bennaf yn ein calonnau ni, pan geisiwn Ef yn ffordd *gweddi*—trwy ddyrchafu ein calonnau a disgwyl am ei neges oddifewn. Credant "nad yw Efe yn ddiau nepell oddiwrth bob un ohonom," ac y gallwn chwilio a'i gael Ef drosom ein hunain ar unrhyw adeg ac mewn unrhyw fan. Unig ystyr "crefydd" yw'r ymdeimlad hwn o agosrwydd Duw.

Ni chred yr Undodiaid mai dim ond mewn rhyw gyfnodau arbennig a thrwy rhyw bersonau arbennig yr amlygwyd Duw i ddynion, neu fod unrhyw Eglwys neilltuol wedi derbyn gwybodaeth arbennig amdano. Gan rai pobl yn fwy nag eraill y mae dawn i ddeall ei ewyllys a'i wirionedd, a gall y proffwydi a'r beirdd a'r athrawon mawr hyn gynysgaeddu eu cyd-ddynion a'r wybodaeth hon. Ond gall pob un ohonom wybod am Dduw drosto'i hun, a gallwn obeithio ennill gwybodaeth newydd amdano'n barhaus trwy ein bywyd a'n gwaith beunyddiol yn ogystal a thrwy ein gweddïau.

Cred yr Undodiaid mai yn y fath gyfeillach a adnabyddir fel "Eglwys" y gall pobl ddysgu orau i chwilio a gwybod am Dduw ; trwy eu gwahanol brofiadau gallant gynorthwyo'i gilydd, ac hefyd drwy geisio amdano gyda'i gilydd enillant ymdeimlad dyfnach o'i bresenoldeb a'i gymorth nag a allent ei gyrraedd, fel rheol, ar eu pennau eu hunain.

Cred yr Undodiaid y gall pob un ohonom gynorthwyo i wasgaru'r wybodaeth am Dduw yn y byd, a rhan o'i bwrpas Ef yw dangos trwom ni i'r rhai sydd o'n deutu gyfran o'i gariad a'i brydferthwch.

Y BEIBL. Cred yr Undodiaid fod pob llyfr da yn helpu dynion i wybod am Dduw ; a thra prisir gwahanol lyfrau yn uwch na'i gilydd gan wahanol bobloedd cred yr Undodiaid mai'r llyfr gwerthfawrocaf i ni yw'r Beibl, canys ohono yn fwy nag unrhyw un arall y dysgodd ein teidiau wybod am Dduw a'i wasanaethu.

Er ei alw yn "llyfr," mewn gwirionedd casgliad yw'r Beibl o lawer o lyfrau a ysgrifennwyd amser maith yn ôl mewn gwahanol gyfnodau yn hanes y genedl Hebreig (neu Iddewig). Ysgrifennwyd hwy i gyd gan fodau dynol fel ni, rhai yn gwybod llai nag a wyddom ni am rai pethau, yn enwedig am faterion gwyddoniaeth, a rhai (o leiaf yn yr amseroedd cynnar) yr oedd ganddynt syniadau am dda a drwg ac am addoli Duw sy'n ymddangos yn awr yn ddieithr ac yn annheilwng.

Felly ni chred yr Undodiaid fod popeth sydd yn y Beibl yn wir neu yn ddefosiynol heddiw ; daliant y dylem ei astudio fel pob llyfr arall, a dewis, drwy'r golau a rydd Duw yn ein meddyliau, beth sy'n gynorthwyol a da, a gadael y rhelyw ar y naill ochr.

Ni chred yr Undodiaid mai'r Beibl ydyw unig "Air Duw" ; y mae Ef yn siarad o hyd â dynion ac, mewn llawer ffordd, yn fwy eglur yn ein hamser ni.

Ond credant fod y Beibl yn cynnwys hanes am ddynion a deimlodd eu bod yn agos at Dduw, a hanes pobl a ddysgodd yn

raddol trwy ei gyfarwyddyd a chymorth athrawon doeth gefnu ar syniadau annheilwng amdano a ffyrdd anghywir o fyw, ac a ddaeth o hyd i wybodaeth lawnach ohono a gwasanaeth purach. Trwy'r tudalennau hynny sy'n adrodd eu gweddïau, a'u hymdrechion, a'u gwynfyd dan ei fendith, y mae Duw eto yn siarad â ni.

Prisir yn bennaf gan yr Undodiaid y rhan honno o'r Beibl sy'n adrodd hanes bywyd a dysgeidiaeth Iesu Grist.

IESU. Cred yr Undodiaid mai Iesu o Nasareth oedd y dyn gorau y gwyddom am ei fywyd ar y ddaear,—hynny ydyw, y dyn mwyaf tebyg i Dduw, oherwydd y mwyaf hysbys o lais Duw yn siarad oddimewn a'r mwyaf ei ufudd-dod.

Geilw yr Undodiaid Iesu yn Arweinydd a Meistr ; ac yn aml rhoddant iddo'r teitl "Crist," fel "Eneiniog" neu yr un dewisiedig, wedi ei ddewis mewn ffordd neilltuol gan Dduw i helpu ac arwain gyd-ddynion.

Ysgrifennwyd yr hanesion a geir am Iesu wedi ei farw gan ddynion o syniadau gwahanol amdano ef a'i waith, er iddynt fel ei gilydd deimlo ei fawredd. Ni chytuna'r ystoriau hyn a'i gilydd ar rai pwyntiau, ac felly ni allant fod yn gydradd wir, ac anodd ac amhosibl credu rhai ohonynt.

Cyn belled ag y gallant ceisia'r Undodiaid chwilio allan y gwirionedd am fywyd a dywediadau Iesu ; ond ni theimlant fod unrhyw anhawster ar bwyntiau neilltuol yn tynnu ymaith oddiwrth brydferthwch a daioni ei gymeriad a'i waith, nac oddiwrth ei ddylanwad ar galonnau dynion heddiw.

Cred yr Undidiaid mai dyn oedd Iesu, wedi ei eni fel dynion eraill ac wedi ei boeni gan yr un nwydau ac anawsterau a dynion eraill, a'i fod er hynny wedi ennill y fuddugoliaeth ar demtasiwn, wedi byw bywyd da a phrydferth, wedi ei ddonio a gallu rhyfeddol i gynorthwyo ac arwain eraill, a'i fod yn ufudd i Dduw, ei Dad nefol, ac yn caru ei gyd-ddynion hyd yn oed i'r diwedd.

Ni chred yr Undodiaid mai "Duw y Mab" oedd Iesu a ddaeth i waered o'r nef i farw fel y gallai "Duw y Tad" faddau i ddynion am bechod eu rhieni cyntaf. Nid fel hyn y meddyliant am Dduw, Un Tad pawb, sy'n berffaith ei gariad, nac am ddyn y gorfodwyd iddo godi drwy ei ymdrechion ei hun o bechod i fywyd gwell.

Teimla'r Undodiaid fod Iesu, fel dyn tebyg i ddynion eraill, yn ein cynorthwyo ni yn fwy nag y gallai rhyw Dduw wedi dod i lawr o'r nef ; canys ef yw'r Esiampl mawr i ni, a ganed ef i ddangos i ni beth y gall ein bywyd ninnau hefyd fod pan fyddo yn ufudd i ewyllys Duw ac yn rhoi lle i ysbryd Duw weithio trwyddo. "Achub" ni drwy ein harwain at fywyd uwch a gwell. Credant fod Iesu yn dangos i ni, yn rhannol, beth ydyw Duw—hynny ydyw, gymaint o Dduw ag y gellir ei ddangos drwy fod dynol.

Cred yr Undodiaid mai ystyr bod yn "Gristion" yw derbyn athrawiaeth Iesu, dilyn ei esiampl, a cheisio byw yn yr ysbryd y bu

ef byw. Ni chredant mai derbyn casgliad o syniadau am Iesu ac am a wnaeth dros y byd a throsom ni yw bod yn "Gristion." Am hynny daliant fod lle i'r Eglwys Undodaidd yn Eglwys Gristnogol fawr ei ganlynwyr.

EIN BRODYR. Cred yr Undodiaid, fel y dysgodd Iesu, fod pob dyn ym mhob man yn blentyn i'r un Tad ac yn frodyr i'w gilydd. Credant fod Duw yn caru ei blant yn gyd-radd ac nad yw'n gwneuthur ffafriaid.

Oddiwrth Iesu yn arbennig y derbyniwyd y geiriau "Tad" a "brawd," a gwel yr Undodiaid yn ei ddywediadau a'i ddamhegion ac yn esiampl ei fywyd y cyfarwyddyd gorau i fyw mewn brawdoliaeth wirioneddol.

Cred yr Undodiaid yr ewyllysia Duw i bob dyn drwy'r byd wybod am eu brawdoliaeth a byw mewn heddwch ac yn gymorth i'w gilydd ; ac y dylai dynion o bob lliw a chenedl (fel y perthyn teuluoedd gwahanol i'r un eglwys neu dref) deimlo eu bod yn perthyn i un gyfeillach ddynol fawr. Credant fod dynion yn raddol yn dysgu'r wers hon, a daw'r amser pryd y bydd casineb a rhyfel ac anghyfiawnder yn diflannu, ac y gallwn ninnau gynorthwyo dwyn yr amser hwn yn agosach.

Y BYWYD GORAU. Cred yr Undodiaid mai'r bywyd gorau yw byw fel plant gwirioneddol i Dduw, gwneud ei ewyllys, a dangos ei Ysbryd, a bod fel brodyr i'w gilydd.

Cred yr Undodiaid fod hanes a geiriau Iesu yn rhoi i ni'r gwirionedd am y ffordd orau i fyw ; a'r cwestiwn pwysig yw—nid beth a gredwn ond ydym, ac nid beth a gawn ond beth a roddwn.

Cred yr Undodiaid mai'r bywyd a dreulir i gynorthwyo a gwasanaethu eraill yw'r bywyd mwyaf gwynfydedig ; ac mai pwrpas Duw i ni bawb ohonom yw dysgu yn gyntaf sut i gynorthwyo a gwasanaethu, ac yna ein rhoddi ein hunain, fel y gwnaeth Iesu, i wneud y byd yn lle gwell ac hapusach.

Credant, os bydd i ni fyw yn yr ysbryd hwn, na all un niwed gwirioneddol ddigwydd i ni, canys y mae Duw yn agos bob amser i'n helpu a'n cynnal, ac na all dim ein gwahanu ni oddiwrth ei gariad Ef.

Y BYWYD I DDOD. Cred yr Undodiaid fod "ein hunan," y rhan sylweddol ohonom sy'n byw, yn caru, yn adnabod Duw, yn parhau i fyw mewn bywyd newydd tu hwnt i'n gwelediad a'n dirnadaeth ni ar derfyn ein bywyd ar y ddaear (pan fydd ein corff yn mynd yn ôl i'r ddaear i dyfu eto mewn ffurfiau newydd o fywyd.)

Ni all neb wybod tebyg i beth yw'r bywyd hwn ; dychmygion yw pb darlun a wnaethpwyd ohono ac a ysgrifennwyd amdano. Cred yr Undodiaid y bydd yn fwy rhyfeddol a phrydferth na'r un o'r dychmygion hyn, canys bydd yn fywyd gyda Duw ei hun.

Ni ddisgwyl yr Undodiaid y caiff hyd yn oed y gorau ohonom fynd yn union i le o wynfyd perffaith a elwir "Nefoedd," canys ni

byddwn yn barod i hynny ; a sicr ydynt na ddenfyn Duw, y Tad cariadlawn, y mwyaf cyfeiliornus o'i blant i le o gosb dragwyddol fel yr "Uffern" y sieryd rhai amdano.

Yn hytrach, disgwyliant y bydd i'n heneidiau barhau i ddysgu a thyfu yn y bywyd arall hwnnw, fel yma, ac y bydd Duw yn dangos i ni mwy a mwy o'i gariad a'i ddoethineb.

Nid edrych yr Undodiaid ymlaen at "Ddydd y Farn Fawr" wedi diwedd disymwth y byd, canys gwelant mai ffordd Duw ydyw gweithio yn araf. Â'r byd hwn yn ei flaen, a deil i fynd yn ei flaen o flwyddyn i flwyddyn ; ac nid erys Duw i'n barnu ni ar un dydd mawr, ond y mae yn ein barnu ni bob dydd a phob awr. Ein gwobr yw'r ymdeimlad o'i gariad, a'n cosb yw'r ymdeimlad o'i gerydd, yn ein calonnau.

Yr un peth y cred yr Undodiaid yn sicr ynddo am y bywyd i ddod yw y byddwn ni bob amser gyda Duw ; os cadwn yn y bywyd hwn ein hymddiried ynddo Ef a'n hymdeimlad o'i bresenoldeb, yna ni bydd eisiau ofni unrhyw gyfnewid a ddaw, canys gwyddom na allwn ddrifftio tu hwnt i'w gariad a'i ofal."

Coleg Caerfyrddin.

ETHOL Y Parch. ISLAN JONES, M.A., YN BRIFATHRO.

Y mae'r Parch. J. Islan Jones, M.A., yn awr o Gribin, wedi derbyn gwahoddiad oddiwrth y Bwrdd Presbyteraidd i fod yn Brifathro Coleg Caerfyrddin, ar ymddiswyddiad y Prifathro presennol, Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc. ; ac y mae yntau wedi cydsynio. Bu gyrfa Mr. Jones yn un hynod o lwyddiannus. Ar ôl dilyn yr alwedigaeth o saer-maen nes oedd yn un ar hugain oed, trodd ei feddwl at y weinidogaeth, ac aeth i ysgol leol am y paratoad arweiniol. Yn 1897, pasiodd *Matriculation* Prif Ysgol Cymru yn y dosbarth cyntaf. Y flwyddyn ddilynol, pasiodd *Responsions* (Rhydychen), ac aeth yn fyfyriwr i Goleg Iesu, lle y bu am dair blynedd (1898-1901) ; ar derfyn ei dymor enillodd y radd o B.A. Y tair blynedd nesaf bu'n fyfyriwr o Goleg Manchester (1901-4). Yr ail flwyddyn enillodd y *Russell Martineau Prize* o ugain gini am ei wybodaeth o'r Hebraeg. Bu hefyd yn darllen y Testament Newydd yn yr iaith Roeg dan arweiniad y Prifathro—Dr. James Drummond. Ryw adeg yn ystod y chwe blynedd hyn enillodd y *Chamberlain Scholarship* o £70 y flwyddyn. Ar derfyn ei dymor ym *Manchester College* enillodd un o Ysgoloriaethau Hibbert o werth £120, ac aeth i'r Almaen. Bu am bedwar mis ym Mhrif Ysgol Marburg ; y gweddill o'r flwyddyn ym Mhrif Ysgol Jena. Ar ei ddychweliad i

Brydain derbyniodd wahoddiad i weinidogaethu yn Accrington, lle yr arhosodd am dair blynedd (1906-9). Y flwyddyn olaf yno enillodd y radd o M.A. (Rhydychen). O Accrington aeth i Halliwell Road, Bolton, lle y bu hyd 1917 ; oddiyno i Hindley hyd 1939, pryd yr ymddeolodd o'r weinidogaeth, ac y dychwelodd i'w hen gartref yng Nghribin. Er iddo ymddeol o ofal eglwys, ni bu lonydd ; yn ychwanegol at barhau ei hoff efrydiaethau, bu'n hynod o wasanaethgar i'r eglwysi, a derbyniol iawn a fu ei wasanaeth. Yng Nghribin, yn enwedig, gwelir ei eisiau yn fawr. Ar ran ei lu cyfeillion yn Lloegr a Chymru, llongyfarchwn ef ar ei benodiad i safle mor bwysig, ac eiddunwn iddo'r llwyddiant gorau.

Maes Llafur yr Ysgol Sul, 1944-45.

Safon I (i rai o dan 9 oed). *Holwyddoreg ar Grefydd*—y rhannau —"Pechod," "Y Beibl," "Iesu Grist."

Safon II (o 9 i 12 oed). Yr un Maes ag i Safon I ond disgwylir gwybodaeth lawnach.

Safon III (o 12 oed i fyny). "*Egwyddorion yr Undodiaid*" o "Y Beibl" tud. 7 i'r diwedd.

Dyddiad yr Arholiad—28ain o Ebrill, 1945.

Gohebiaethau.

(*Nid yw'r Golygydd yn gyfrifol am olygiadau ei ohebwyr.*)

"Yr Utgorn a rydd sain anhynod, pwy a ymbaratoa i ryfel ? "

Annwyl Olygydd,—Cred yr Undodwr yn y doethineb o gywiro gwall mewn ffeithiau hyd yn oed pe bae'r troseddwr yn Bab, a derbyn haneswyr diduedd gywiriadau o'r fath gyda diolchgarwch. Y ffeithiau yw'r unig sylfaen sicr i opiniynau. Amlwg yw fod angen rhagor o wybodaeth am ffurflywodraeth y Gymanfa Gyffredinol neu ni fuasai T.O.W. yn gofyn pwy wna'r trydydd aelod o Gymru gynrychioli. Ceir y manylion ar dudalennau 11—20 yr *Year Book* am 1936. Yma gwelir y gwneir y Cyngor i fyny gan mwyaf o :

(1) Aelodau etholedig gan y Cyfarfod Blynyddol. Yn hwn pleidleisia un neu ddau (yn ôl rhif yr aelodaeth) o bob eglwys ynghyd â'r gweinidog.
(2) Aelodau a ddewisir yn flynyddol gan danysgrifwyr o bum swllt neu fwy i'r Gymanfa.
(3) Aelod yr un o Gymdeithasau lleol.
(4) Aelod yr un i gynrychioli'r Colegau.
(5) Aelodau a gyd-fabwysiedir (co-opted) yn flynyddol gan y Cyngor.

Gwelir felly fod pob eglwys, a phob aelod o bob eglwys, yn cael llais yn y gynrychiolaeth, *ar delerau a'r rheini'n rhesymol*, a da fyddai cael rhagor o bobl gymwys o Gymru i wasanaethu.

Ond ymddengys yn awr nad y gynrychiolaeth na'r cysylltiad ariannol (gyda llaw, ni orfodir i neb dderbyn hwn) sydd ym meddwl T.O.W. Carai weld y Gymanfa "fel y galon yn gyrru bywyd drwy bob aelod." Fel mater o ffaith, dyna'n hollol yw ei hymgais yn yr antur presennol. Ond os brathir yr *arteries* gan bicellau gwenwynllyd, pa fodd y gall y galon wresogi a meithrin y corff?

Ym Medi 1943 anfonodd y Gymanfa "Alwad at yr Eglwysi." Yn hon tynnai "sylw at faterion neilltuol a ymwna yn ddwfn â phob un a ofala ddim am fywyd crefyddol yn gyffredinol, ac am ein Heglwysi Undodaidd a Christionogol Rhydd yn arbennig." Pwysleisiai mai "ysbrydol yw'n tystiolaeth" ac fod "ein gofal pennaf am werthoedd ysbrydol." Gyrrai'r apêl adref at yr aelod unigol ym mhob eglwys gyda'r geiriau, "Pa gyfraniad ysbrydol fedraf i ei roi?"

Cyfieithwyd yr "Alwad" i'r Gymraeg gan y Parch. T. Oswald Williams, oni chamsyniaf. A yw'n bosibl na welodd T.O.W. hi? Neu efallai na sylweddolodd yr ysbryd o'r tu ôl i'r geiriau yn flaenorol i hyn.

Apwyntiodd y Gymanfa "Gomisiwn i arolygu'n gyflawn ein bywyd eglwysig yn ei amrywiol foddau." Ymwelodd aelodau o'r Comisiwn (bechgyn o dan 45 mlwydd oed) â Chymru er ymgynghori. Gwahoddent a gwahoddant bob ryw awgrym adeiladol a beirniadaeth ddyrchafol, ac eisoes gosodasant ar droed un cyfnewidiad bendithiol yn ymwneud â'r eglwysi yng Nghymru.

Cytunaf fod hyfforddiant a chynorthwy i'r myfyrwyr yn bwysig, a thrueni na chafodd T.O.W. hyn. Dichon fod yna resymau digonol, Efallai nad oedd yn aelod mewn un eglwys neu na wyddai nac eglwys nac enwad ei fod a'i wyneb ar y weinidogaeth nes gorffen ei yrfa addysgol, ac na awgrymodd i neb y croesawai hyfforddiant a chymorth. Beth bynnag, nid bai y Gymanfa yw hynny, am nad oedd y Gymanfa yn bod ar y pryd.

Un ffordd i hyrwyddo hawddfyd a llwyddiant myfyrwyr y dyfodol yw cyfrannu at Gronfa'r Myfyrwyr, ac fel Trysorydd y Gronfa byddaf yn ddiolchgar am siec T.O.W., a llawer eraill, am y flwyddyn ddiwethaf a'r flwyddyn hon.

Ac yn awr, yng ngeiriau'r "Alwad"—"A fedrwn ni godi uwchlaw ein gwahanolrwydd . . . a chydweithio dros ddelfrydau mawr . . . ?" "A fedrwn ni gael y symbyliad o sylweddoli tra fyddo ein gwaith mewn man neilltuol mai llwyddiant neu dıychineb yr achos . . . sydd yn y fantol?" " . . . Os yw gwaith y Comisiwn i ddwyn ffrwyth, rhaid cadw yn ddiysgog yn ein meddyliau y pethau canolog. Yn y ffydd hon yr apelia'r Gymanfa am ddiddordeb brwdfrydig a help gweddïgar yr eglwysi i gyd fel na byddo gwaith y Comisiwn yn ofer."

Yr eiddoch, SIMON JONES.

* * *

Syr,—Gofynnir i'r Pwyllgorau Addysg Lleol ynghyd â'r Eglwysi o bob enwad yng Nghymru i gydweithio a Chymdeithasau Diogelu Anifeiliaid Prydain i feithrin yn y plant a'r bobl ifanc yr ysbryd hynaws a charedig at bob math o anifeiliaid direswm ac adar drwy bwysleisio hyn yn yr Ysgolion Sul a'r Ysgolion Dyddiol.

Eisoes, y mae lliaws o Eglwysi a Chymdeithasau yn Lloegr yn gweithredu i'r perwyl hwn. Yn anffodus, hyd yn hyn, y mae Cymru rywfaint ar ôl gyda'r addysg pwysig hwn ar gyfer y dyfodol ac nid yw'n rhyfedd bod cymaint o bobl wedi eu cospi eisoes am greulondeb dianghenraid i anifeiliaid. Taer erfynnir, felly, am gydweithrediad cyson yr enwadau crefyddol ynghyd â'r pwyllgorau addysg i ennyn yn y plant a'r bobl ifanc ymhob ardal o Gymru gariad at anifeiliaid ac adar yn gymaint ag at eu cyd-ddynion. Yr eiddoch yn gywir,

GRACE BIBBY, (Trefnydd Lleol).
D. LL. CARRELIO MORGAN, D.O., N.D., (Noddwr),
Aberystwyth.

Cynghrair y Gwragedd.

RHANBARTH CEREDIGION

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yng Nghapel y Graig, Llandysul ar Hydref 26. Dyma'r pedwerydd cyfarfod ar ddeg yn hanes y Cynghrair. Arweiniwyd yn y defosiynau gan Mrs. Park Davies ; gweinyddwyd y Cymun gan y Parch. E. Gwilym Evans, B.A. Wrth yr organ yr oedd Mrs. Davies, Cambrian Street.

Llywydd y cyfarfod oedd Miss Evans, Ffynnon Fair, ac yn ei geiriau o'r gadair diolchodd i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u calondid yn ystod blwyddyn anodd Teimlai'n gryf y dylai ein pobl ieuainc gael mwy o sylw. Y mae tymor ieuenctid yn galw am ddeall a chydymdeimlad.

Ystyrrid adroddiadau'r ysgrifennydd a'r trysorydd yn foddhaol. Etholwyd Miss Jones, Llwyn Onn (Brondeifi) yn is-lywydd, ac ail-etholwyd y swyddogion eraill. Gyda Miss Jones, Pantmoch, y mae dymuniadau gorau'r aelodau am flwyddyn ddedwydd a llwyddiannus yn ei swydd fel llywydd. Trefnwyd cynnal y Cyfarfod Blynyddol nesaf yng Nghapel y Groes.

Diddorol ydoedd gwybod fod y galw am lyfryn y Parch. J. Islan Jones, M.A., *Egwyddorion yr Undodiaid*, ar gynnydd. Y mae'n cwrdd ag angen a deimlwyd yn hir yn ein cynulleidfaoedd.

Cafwyd anerchiad hyfryd iawn gan Miss Rees (Brondeifi) ar y geiriau, "A Mair a ddewisodd y rhan dda." Pwysleisiodd bwysigrwydd cynyddol gwaith y fenyw a'i lle cydnabyddedig ym materion byd. Diolchwyd iddi gan Miss Jones, Gellifaharen a fynegodd hefyd gydymdeimlad â Mrs. Ceiron Jones. Ategwyd ei geiriau gan Miss Evans (Capel y Bryn).

Darparwyd te i'r ymwelwyr wedi cyfarfod dedwydd iawn, yr aelodau o ardal leol y Cynghrair yn gweinyddu wrth y byrddau.—K.J.

Marwgofion.

Medi 9, BEN DAVIES, Pantywilco, Llanwnen, yn 66 mlwydd oed. Byr, a chymharol ddi-boen, fu ei gystudd. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Capel y Bryn, dydd Mawrth, Medi 12, yr angladd yn anghyoedd. Gwasanaethwyd yn y capel gan ei weinidog, y Parch. S. G. Thomas, Seion, Cwrt Newydd, yn cael ei gynorthwyo yn y tŷ ac ar lan y bedd gan y Parchn. A. J. Martin a S. Evans Bowen. Gadawodd i alaru ar ei ôl weddw ac un ferch.

Gŵr addfwyn, aml ei gymwynas,—oedd Ben ;
Haeddai barch cymdeithas ;
Ddyfaled oedd ! Fel da was,—
Baich ei ddydd, buchedd addas.

Da oedd am drin ei dyddyn ;—o noeth le
E wnaeth lwyn a choedlyn ;
A chwith fu myned wedyn
O'i stâd glôs i dywod glyn. Cledlyn.

Medi 22, yn 68 mlwydd oed, bu farw Mrs. JANE JONES, annwyl briod Mr. W. D. Jones, Hendryd Villa, Heol Penparcau, Aberystwyth, yr olaf o deulu lluosog yr Hendryd. Ni wyddai'i chyfeillion ei bod yn dihoeni a daeth yr ergyd megis ar amrantiad—ychydig oriau wrth ryd yr afon ac yna croesi i'r lan ddisglair draw. Yr oedd Mrs. Jones fel yr oll o'r teulu o natur garedig a boneddigaidd. Cofiaf yn dda am y naill ar ôl y llall yn dod i orwedd yng nghladdfa'r teulu yng

Nghaeronnen. Ni wn pam ond y mae atynfa gan hen gladdfa ac yng Nghaeronnen y mae nifer o deuluoedd cyfain yn gorwedd yma. Yn eu plith ceir teulu'r Hendryd, a'r ddeilen olaf wedi syrthio yn yr hydref. Aeth y mwyafrif ohonynt ymhell o'r Hendryd, ond nid aeth yr un ohonynt yn rhy bell i ddychwelyd yma yn y diwedd. Yr oedd nodweddion amlwg y teulu yn Mrs. Jones. Yr oedd rhyw sirioldeb diwenwyn a chroeso boneddigaidd ynddi, a mynnai'r ffrindiau eu bod o galon garedig a chymwynasgar. I lawer o'n haelodau yng Nghaeronnen yr oedd aelwyd Hendryd Villa yn "home from home." Ni welem mohoni ond ar amgylchiadau arbennig megis priodas ac angladd ond yr oedd bob amser fel hi ei hunan yn hollol naturiol. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Richard Ward, B.A., ficer St. Michael's a St. Mary's, Aberystwyth a'r ciwrad y Parch. Cyril Thomas, B.A. Yng Nghaeronnen gwasanaethwyd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A. ; ac ar lan y bedd gan ei chefnder, y Parch. E. D. Evans, B.A., Ficer Llandyfrdwy ger Corwen, Sir Feirionnydd. Gadawodd briod gofalus a thyner mewn galar dwys o'i cholli heb law nifer o berthynasau a llu o hen ffrindiau yn yr ardaloedd bu'n byw ynddynt. Coffa da amdani, yr olaf o hen deulu annwyl. [Diolch i bob ciwrad am help i groniclo marwolaethau, ond hyd yn hyn medraf wneud hebddynt.—T.O.W.]

Hydref 6, yn 82 mlwydd oed, bu farw JOHN BALHAM, Carrara Cottage, Llanbedr, wedi cystudd hir a phoenus. Cockney o'r dechrau i'r diwedd ydoedd wedi'i eni yn y brif-ddinas ac er na bu yn ôl yno er dod i Gymru yn llanc ieuanc, yr oedd yn gockney o gopa'i ben i wadn ei droed. Daeth i ddyffryn Clettwr i blâs Alltyrodyn a daeth Balham i Lanbedr gyda Thomas y Vet, fel y dywedid dros hanner can mlynedd yn ôl. Yr oedd rhywbeth yn garedig a boneddigaidd ynddo a cherddodd ei lwybr yn union. Gwasanaethodd nifer o blasau'r gymydogaeth ac ae ar gylch oddiwrth y Vet i'r Neuaddfawr ac at Dr. Abel Evans nes dychwelyd yn ei dro. Claddwyd ym mynwent Brondeifi (er bod gyda'r hen deulu a garai) a gwasanaethwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A. Hunodd ymhell o Lundain ond eto ynghanol nifer o hen ffrindiau. Gadawodd briod yn unig a hwyrach berthynasau ymhell.

Tachwedd 13, yn nhŷ ei fab a'i ferch-yng-nghyfraith yn 3, Drover's Road, Llanbedr, bu farw JOHN EVANS, Blaencwmiar, Llanllwni, wedi cystudd caled. Nid oedd o gyfansoddiad cryf ond yr oedd iddo air da gan gâr a chyfaill a chan y gwirionedd ei hun. Gŵr tawel diymhongar ydoedd. Claddwyd y dydd Iau dilynol yng Nghladdfa Capel Nonni, Llanllwni. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. T. O. Williams, M.A. a T. Eirug Davies, M.A. Gwasanaethwyd yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parchn. J. Evans, Gwernogle, D. Lloyd, Brynaman a D. Morris Jones (ei weinidog), a thalodd Mr. Jones deyrnged loyw i'w ddidwylledd a'i gymeriad ffein. Gadawodd i alaru ar ei ôl fab, ŵyr, chwaer a brawd heb law torf o hen gyfeillion. Heddwch i'w lwch ym mynwent Capel Nonni.

Bu farw Mrs. MARGARET JONES, priod Evan Jones, Glydwer, Cribyn, ar y 25 o Hydref yn 73 oed. Chwaer ydoedd i'r Parch. Simon Jones, Abertawe. Gwraig ydoedd a welsai lawer o afiechyd, ond cadwodd ei hysbryd yn iraidd drwy'r cwbl. Yr oedd ganddi feddwl craff iawn ac iach. Nis clywid hi'n trin a thrafod eraill, ond sôn am bethau sylweddol y byddai hi. "Gwefusau'r cyfiawn a wyddant beth sydd gymeradwy." Un o'i hoff destunau siarad hi oedd Capel Llwynrhydowen. Yr oedd yn caru'r gyfeillach yno ac yn ymwybod â'r traddodiadau gwych ac â'r egwyddorion oedd y tu ôl i'r rheiny. Soniai am garedigrwydd pobl y Llwyn 'slawer dydd, ac yn enwedig caredigrwydd William James. Bu'n fam ofalus, ddoeth a gwelir eisiau ei meddwl trefnus yn y cartref. Gadawodd briod a phlant a brawd mewn galar mawr o'i cholli. Bu'r angladd ar y 31 o Dachwedd yn Eglwys Llanwennog. Cymrwyd rhan yn y tŷ gan y Parchn. J. Islan Jones, E. O. Jenkins, S. E. Bowen, A. J. Martin, a Lewis Williams ; yn yr Eglwys gan y Ficer, ac ar lan y bedd gan y Ficer a'r Parchn. T. O. Williams ac A. J. Martin.

TACHWEDD 18, yn 66 mlwydd oed, wedi byr gystudd bu farw JANE LLOYD JONES, gynt o Gyfeile, Llandysul, yn Ysbyty Richmond, Llundain. Dygwyd ei gweddillion marwol i gladdfa gysegredig y teulu ym mynwent Pantydefaid, Tachwedd 22. Anghyoedd oedd yr anglad a'r Gweinidog yn gwasanaethu a Mrs. Evans, Wilkes Head Dairy wrth yr organ. Yr oedd cynrychiolaeth gref o'r teulu yn y capel a chydymdeimlwn yn fawr â hwy. Talodd y Gweinidog deyrnged uchel i gymeriad y chwaer ymadawedig.

TACHWEDD 19, ar ôl ychydig oriau o gystudd, THOMAS JOHN REES, baban annwyl Glyn a Mary Rees, Penbryn, Gwarllwynoidos, yn dri mis oed. Cydymdeimlir yn fawr â'r rhieni ieuanc yn eu profedigaeth. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Capelyfadfa, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

TACHWEDD 23, yn 68 oed, yn nhŷ ei chyfnither, y Manse, Rhydygwin, bu farw MARY ANNE EVANS, ar ôl cystudd caled o amryw fisoedd. Merch ydoedd i'r diweddar Mr. a Mrs. Evans, Capeli, ger Cribin. Collodd ei thad pan oedd ifanc iawn, a disgynnodd y gofal am y fferm a'r teulu yn gwbl ar y fam ; a bu'r plant i gyd yn help mawr iddi. Ychydig flynyddoedd yn ôl ymneilltuodd y teulu o'r fferm, ac aethant i fyw i Danfforest ger Llanbedr. Buont feirw o un i un, a hi oedd yr olaf. Tua chwe mis yn ôl torrodd ei hiechyd i lawr, ac aeth am ymgeledd at y Parch. Mr. a Mrs. Williams ; a buont fawr eu gofal ohoni a'u tynerwch tuag ati. Yr oedd yn aelod o dylwyth a fu mewn cyswllt â Chapel Cribin er yn gynnar yn y ganrif ddiwethaf ; a buont, y rhan fwyaf ohonynt, yn ffyddlon hyd y diwedd—hi y ffyddlonaf ohonynt. Arwydd o'i serch at yr achos yw'r ffaith iddi adael yn ei hewyllys £100 at ei wasanaeth. Hefyd, teilwng yw cofnodi y ddyled i deulu Capeli ynglŷn ag adeiladu'r ysgoldy eang a chyfleus at wasanaeth y capel. Gwnaeth pawb eu rhan yn ardderchog bryd hynny ; eithr sicr yw na fyddid wedi llwyddo i gwblhau'r adeiladu oni bai am a wnaeth y teulu hwn. Diau y gŵyr yr hynaf o'r aelodau at beth y cyfeiriaf. Y dydd Llun dilynol, dygpwyd ei gweddillion i orffwys yn ymyl eiddo ei theulu yn naear mynwent Cribin. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. A. J. Martin, B.A. ; yn y capel gan y Parch. D. Evans ; ac ar lan y bedd gan y Parch. J. Islan Jones, M.A.

TACHWEDD 28 claddwyd ym mynwent Pantydefaid JOHN EVANS, Station Road, Ponttweli, Llandysul, a chynt o Gaerfyrddin, ac yntau wedi cyrraedd yr oedran teg o 80 mlynedd. Un o deulu parchus Pwllffein oedd yr ymadawedig, a chan hynny yn ddyn cywir a gonest. Gweinyddwyd yn y tŷ ac yn y capel, ac ar lan y bedd gan Weinidog y lle, gyda Mrs. Evans, Wilkes Head Dairy a gofal yr offeryn cerdd.

Nodion yr Eglwysi.

CYFARFODYDD DIOLCHGARWCH.—Gwasanaethwyd yng NGHAPEL Y BRYN gan y Parch. D. Morris Jones, Bethel a Drefach ; yng NGHAPEL Y CWM gan y Parch. E. O. Jenkins ; yng NGALLTYPLACA gan y Parch. E. Gwilym Evans, B.A. Cafwyd cynulliadau lluosog.

CAPEL Y BRYN.—Beth amser yn ôl cyflwynodd cynulleidfa Capel y Bryn eu llongyfarchiadau cynnes i Mr. a Mrs. John Williams, Stockport, ar ddathlu ohonynt eu pum mlynedd ar hugain o'u bywyd priodasol. Dau o blant Capel y

Bryn ydynt, ac yng nghymdogaeth Manceinion, gynt ym Moss Side ac yn awr yn Stockport, y maent wedi rhoddi ffyddlondeb a gwasanaeth anarferol dda i gynulleidfaoedd Undodaidd. Mynegodd Mr. a Mrs. Williams eu llawenydd yn y dathlu drwy gyflwyno chwe punt ar gyfer gwibdaith i blant ysgol Sul Capel y Bryn.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Egwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Unity, Upper Street, Islington, N.1. ar y Sul cyntaf o bob mis am 4.15 o'r gloch. Ar waethaf y tywydd a'r V.2. (syrthiodd un heb fod yn nepell yn ystod yr oedfa), daeth nifer go dda ynghŷd i'r gwasanaeth ar y Sul cyntaf yn Nhachwedd pan bregethwyd gan Dr. R. Ogwyn Jones, M.Sc., Cadeirydd y gynulleidfa. Y mae'r Trysorydd am adgofio'r aelodau fod diwedd y flwyddyn yn agos, ac y carai gael eich tanysgrifiadau yn fuan. Mae'r drysorfa braidd yn isel, yn bennaf oherwydd yr amgylchiadau anodd a ddaeth ar ein gwarthaf ym mis Mehefin ac ar ol hynny. *Trefn y dyfodol* : Ionor—Mr. W. Vaughan Lewis, M.A. ; Chwefror—Y Parch. J. Coram Davies, B.A.

ABERDÂR.—Ychydig wythnosau yn ôl rhoddwyd dau berfformiad o'r ddrama, *The Poison Pen*, gan Gwmni Drama Trecynon, er budd eglwys yr Hen Dŷ Cwrdd. Yr oedd y chware o safon uchel iawn ; nid oedd gwendid i'w ganfod yn un o'r cymeriadau, pob actiwr yn portreadu ei gymeriad yn feistrolgar. Rhaid cofnodi am chware Mrs. D. T. Williams. Cyrhaeddodd hi safon uchel iawn. Disgyblwyd y cwmni fel arfer gan y Parch. E. R. Dennis, a bu ef yn llwyddiannus i gael y gorau allan o'r chwaraewyr. Yr oedd yr adeilad eang yn orlawn y ddwy noson, a phawb yn canmol mewn modd huawdl y chware penigamp. Fel eglwys y mae ein diolch gwresocaf yn ddyledus i'r chwaraewyr am eu hymdrech fawr drosom. Daeth elw sylweddol i law. Llywyddwyd gan Mrs. M. H. Llewelyn, Tŷ Newydd, Hirwaun nos Iau, ac yn absenoldeb T. Davies, Ysw. llanwyd y gadair nos Sadwrn gan W. J. Phillips, Ysw. Diolchwn hefyd i Mr. D. T. Williams a Mr. J. E. Davies am ofalu am y tocynnau a'r trefniant.

LLWYNRHYDOWEN.—Nos Iau, Tachwedd 23, cafwyd Noson Lawen, wedi ei threfnu gan yr adran o Gynghrair y Chwiorydd. Diben y cyfarfod oedd cael elw ar gyfer y calennig arferol i'r bechgyn sydd yn y lluoedd arfog, ac y mae yna ddeg ohonynt. Daeth cynulliad cryf ynghyd. Cafwyd gwledd o ddanteithion gwaith cartref ac amser gwir bleserus. Diolchodd llywydd y rhanbarth, Mrs. Jones, Y Bwthyn, i bawb am eu cefnogaeth.

TREBANOS.—Ymddengys hanes cyfarfodydd dathlu hanner canmlwydd agor Capel y Graig yn ein rhifyn nesaf.—GOLYGYDD.

CRONFA'R YMOFYNNYDD.—Derbyniwyd £1 oddiwrth Mr. David Davies, Penybont-ar-Ogwr (trwy'r Parch. J. D. Jones).

Dymuniadau Gorau am y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, yng Ngwasg Gomer, Llandysul.